

DATGANIADAU ARIANNOL

AR GYFER Y FLWYDDYN HYD AT 31 GORFFENNAF 2004

CYNNWYS	TUDALEN
Adroddiad y Trysorydd ynghyd â'r Prif Bwyntiau Ariannol ac Ystadegau Allweddol Eraill	2 – 4
Datganiad Llywodraeth Gorfforaethol	5 – 6
Cyfrifoldebau Cyngor Prifysgol Cymru	7
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	8 – 9
Datganiad o'r Prif Bolisiau Cyfrifydda	10 – 13
Cyfrif Incwm a Gwariant	14
Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig	15
Y Fantolen	16 – 17
Datganiad Llif Arian	18
Nodiadau'r Datganiadau Ariannol	19 – 32
Atodiad A – Prif Weithrediadau'r Brifysgol – Crynodeb o'r Cyfrifon Incwm a Gwariant am y Blynnyddoedd hyd at 31 Gorffennaf 2004 a 2003	33 – 35
Atodiad B – Prif Gorff Llywodraethu, Pwyllgorau, Prif Swyddogion a Staff, Cyngorwyr, etc.	36 - 40

**PRIF BWYNTIAU ARIANNOL Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2004**

<u>Cyfrif Incwm a Gwariant</u>	2004 £000	2003 £000	Newid %
<u>Incwm</u>			
Grantiau'r Cyngor Cyllido	639	628	2
Ffioedd Academaidd a Grantiau Cymorth	123	121	1
Grantiau a Chontractau Ymchwil	273	249	10
Incwm Gweithredu Arall	5,880	5,224	13
Incwm Gwaddol a Llog Derbyniadwy	862	876	(2)
Cyfanswm yr Incwm	7,777	7,098	10
Cyfanswm y Gwariant	6,953	6,900	1
Gwarged am y Flwyddyn	824	198	
Elw adeg Cael Gwarged ag Asedion Gosodedig	-	348	
Trosglwyddo Incwm Gwaddol Penodol nas Gwariwyd i Gronfeydd Gwaddol Penodol	(89)	(111)	
Gwarged Cyffredinol am y Flwyddyn	735	435	
<u>Mantolen</u>			
Asedion Gosodedig	6,348	5,238	21
Buddsoddiadau Gwaddol	12,489	11,984	4
Asedion Cyfredol Net	5,014	5,247	(4)
Asedion Net	23,851	22,469	6
Arian Net (All-lif) Mewnlfif	(490)	322	
<u>Ystadegau Allweddol Eraill</u>	2004 Nifer	2003 Nifer	
Niferoedd Staff Cyfartalog Cyfwerth-ag-Amser-Llawn Ymrestrïadau'r Sefydliadau Cyfansoddol a'r Colegau Prifysgol: (Amser-llawn, blwyddyn allan ar ryng-gyrsiau a rhan-amser heb gynnwys cyrsiau sydd wedi eu rhyddfrenio)	123	119	3
- Israddedigion	60,704	57,845	5
- Ôlraddedigion	13,386	12,749	5
CYFANSWM	74,090	70,594	5
Myfyrwyr a Ymgymhwysodd ar gyfer Graddau Prifysgol Cymru:			
Cychwynnol	15,046	14,978	-
Uwch	4,528	4,237	7
	19,574	19,215	2

ADRODDIAD Y TRYSORYDD 2003-2004

Cwmpas y Datganiadau Ariannol

Mae'r Datganiadau Ariannol a gyflwynir i Gyngor y Brifysgol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2004 yn cwmpasu canlyniadau gweithgareddau Cofrestrfa'r Brifysgol yn cynnal swyddogaethau Prifysgol Cymru a'r amrywiaeth o Wasanaethau Canolog eraill y mae Cyngor y Brifysgol yn gyfrifol amdanynt.

Paratowyd y Datganiadau Ariannol yn unol â'r Datganiad diwygiedig o Ymarfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifydda ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch (yn weithredol ers 1 Awst 2003), â chyfraith a Safonau Cyfrifydda'r DU sy'n gymwys, a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Canlyniadau Ariannol y Flwyddyn

Mae'r rhestr ar dudalen 2 yn darparu uchafbwyntiau ariannol ar gyfer y flwyddyn. Mae strategaeth ariannol fras Cyngor y Brifysgol wedi parhau i fod yn seiliedig ar y gofyniad fod ei weithrediadau unigol yn ceisio sicrhau eu bod yn gweithredu o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael iddynt ac y gellir talu unrhyw ddiffygion o'u cronfeydd wrth gefn a'u gweddillion dewisol. Rhaid i gamau adferol gael eu cyflwyno gan y Byrddau neu'r Pwyllgorau Prifysgol cyfrifol os yw'n ymddangos o'r rhagolygon a'r amcanestyniadau ariannol fod y gweithgareddau y maent yn gyfrifol amdanynt yn debygol o fynd i ddiffygion blynyddol ar sail barhaus na ellir mo'u talu o'u hincwm blynyddol a / neu eu cronfeydd wrth gefn a'u gweddillion.

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2004, enillodd y Brifysgol warged ar weithrediadau'r flwyddyn o £735K o'i gymharu â gwaged o £435K yn y flwyddyn flaenorol. Mewn cyferbyniad â'r llynedd, ni waredwyd dim o eiddo'r Brifysgol, o'i gymharu â llynedd pan werthwyd cyn-adeiladau Gwasg y Brifysgol yng Nghaerdydd. Cyfrannodd yr elw o'r gwerthiant £347K i'r cyfanswm gwaged ar weithgareddau'r flwyddyn. Roedd y gwaged cyffredinol yn 2003/04 am y gweithrediadau parhaus £229K yn uwch nag a ragwelwyd yn y gyllideb gymeradwyedig, yn bennaf o ganlyniad i reffeniw ychwanegol o weithgareddau dilysu'r Brifysgol yn y wlad hon a thros y môr.

Yr oedd cyfanswm yr incwm ar gyfer y flwyddyn yn £7.8M sef tua 10% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Dychwelodd yr incwm o weithgaredd Gregynog i'r lefelau gweithredu arferol yn dilyn gostyngiad yn y flwyddyn flaenorol yn sgil aflonyddwch i'r busnes oherwydd gwaith atgyweirio hanfodol. Fodd bynnag, unwaith eto, y twf parhaus yn yr incwm o weithgareddau dilysu'r Brifysgol gartref a thros y môr oedd y ffactor pwysicaf yn y cynnydd incwm o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Roedd cyfanswm yr incwm o fuddsoddiadau a llog ar weddillion ychydig yn llai am y flwyddyn, gan adlewyrchu yn rhannol cyfnod olaf alldyniad cyfnodol y dreth gorfforaethol uwch y gellir ei hadennill gan gyrff elusennol, cyfraddau sail y DU sy'n hanesyddol isel a'r arenillion sydd ar gael ar warantau'r llywodraeth.

Yr oedd cyfanswm gwariant y flwyddyn ychydig iawn yn uwch (0.8%) ar £7M. Cynyddodd costau staff tua 4% i £3.2M, yn bennaf yn adlewyrchu dyfarniadau cyflog cenedlaethol o 3.44% ac effeithiau drifft cynyddrannol. Gostyngodd costau gweithredu eraill ychydig bach i £3.6M, a gwelir y prif newidiadau i rannau cyfansoddol y gwariant hwn yn nodyn 6 y cyfrifon hyn.

Ceir manylion am brif ffynonellau incwm a gwariant am y flwyddyn ym mhrif ganolfannau cost y Brifysgol, ynghyd â chymaryddion am y flwyddyn flaenorol, yn Atodiad A y datganiadau ariannol hyn.

Perfformiad y Buddsoddiadau

Cododd gwerth net buddsoddiadau asedion gwaddol y Brifysgol dros y flwyddyn o £505K (4%), i £12.5M. O'r newid hwn yn y gwerth, yr oedd £169K yn ymwneud â buddsoddiadau ychwanegol a newydd a £336K â chodiad yng ngwerth marchnad y buddsoddiadau a ddelid ar 31 Gorffennaf 2004. Bu codiad hefyd o £1.1M yn y

ADRODDIAD Y TRYSORYDD – Parhad 2003 – 2004

buddsoddiadau asedau sefydlog yn y flwyddyn, i £4.2M o ganlyniad i fuddsoddiadau ychwanegol o £1M a chodiad yng ngwerth marchnad y buddsoddiadau a ddelid o £127K.

Cofnododd cronfeydd buddsoddi'r Brifysgol gynydd o rhwng 2.8% a 3.2% yng ngwerth marchnad eu buddsoddiadau. Ar sail cyfanswm adenillion (h.y. cyfanswm cyfunol y newid yng ngwerth y farchnad ac incwm am y flwyddyn), cofnododd y cronfeydd buddsoddi enillion rhwng 7.2% a 7.8%.

Llifoedd Arian

Bu mewnlf arian net am y flwyddyn o £605K, heb gynnwys y newidiadau a ddaeth yn sgil rheoli adnoddau hylifol. Ceir manylion llawn am y prif lifoedd arian ar dudalen 18 y datganiadau ariannol hyn. Roedd adneuron tymor-byr y Brifysgol yn sefyll ar £6.3M ar 31 Gorffennaf 2004 ac fe'u rheolir yn fewnol. Cadwodd y Brifysgol ei harfer o geisio cyflawni'r adenillion uchaf posibl ar ei hadnau ar y risg leiaf bosibl drwy fenthycu arian i ystod gyfyngedig o sefydliadau y mae eu statysau credyd ar lefel uchaf y sbectrwm.

Credydwy'r

Yn ddarostyngedig i drefniadau eraill, yn y mwyafrif o achosion, mae'r Brifysgol yn talu ei chredydwy'r o fewn 30 diwrnod o gyflwyno'r nwyddau neu o gael anfoneb wedi ei dychwelyd yn gywir, p'un bynnag sydd hwyraf. Ar 31 Gorffennaf 2004, yr oedd ar y Brifysgol gyfanswm o £2.7M i'w chredydwy'r, o'i gymharu â £2.1M ddeuddeg mis yn flaenorol. O'r swm cyntaf, yr oedd £0.9M yn ymwneud â'r symiau a oedd yn daladwy ar 31 Gorffennaf, yr oedd £0.2M yn cynrychioli derbyniadau o flaen llaw, a £1.6M yn ymwneud â gweddillion i'w dal ar gyfer eu dosbarthu gan y Brifysgol i'r budd-ddeiliaid o dan Ddeddf Eglwys Cymru. Mewn perthynas â'r olaf, ac yn unol â'r polisi a gytunwyd yn 2000 gan y Brifysgol a budd-ddeiliaid i gwblhau gwerthiant yr ystâd a reolwyd gan y Brifysgol ers 1949 o dan delerau'r Ddeddf cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol, gwerthwyd y tair ffarm oedd yn weddill yng ngorllewin Cymru yn ystod y flwyddyn. Roedd yr ystâd weddilliol ar 31 Gorffennaf 2004 yn cynnwys c.178 erw yn unig, gan gynnwys un ffarm fach yng ngogledd Cymru a pharseli bychain amrywiol o dir yng ngogledd a gorllewin Cymru.

Casgliadau ac Edrych Ymlaen

Yr oedd y gwarged ar waith y flwyddyn hyd yn oed yn well na'r hyn a ragwelwyd, ac mae'n dda gennyf adrodd unwaith eto i'r Cyngor fod sefyllfa ariannol y Brifysgol yn parhau'n gryf. Mae gweithdrefnau a rheolaethau gweithredol y Brifysgol yn sicrhau yr ymdrinnir â materion ariannol y Brifysgol yn ôl y safonau llym a ddisgwyllir oddi wrth gorff cyhoeddus. Hoffwn gofnodi fy niolch i'r swyddogion a'r staff am eu hymrwymiad parhaus i lwyddiant Prifysgol Cymru.

Mae gwrthgiliad Prifysgol Caerdydd a'r Coleg Meddygaeth o aelodaeth Prifysgol Cymru ym mis Awst 2004 wedi arwain at adolygiad gan y Brifysgol o'i swyddogaethau a'i strwythurau yn y dyfodol a'r mecanweithiau ariannu perthynol. Yn ystod y deuddeg mis nesaf felly, bydd y Brifysgol yn gwneud penderfyniadau fydd yn sefydlu cyfeiriad gweithredol a strategol y Brifysgol yn y dyfodol.

Mae'r Brifysgol ac Ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn mewnol wedi cytuno mewn egwyddor i drosglwyddo aelodaeth i Gynllun Blwydd-dal Cenedlaethol y Prifysgolion (USS). Bydd y cynnig hwn yn ceisio sicrhau cydraddoldeb darpariaeth cynllun pensiwn i holl gyflogedigion y Brifysgol ac yn rhesymoli'r trefniadau gweinyddol presennol. Wrth reswm, byddai rhaid i'r Brifysgol gytuno i gwrdd ag unrhyw ddiffyg mewn asedau dros atebolrwydd y cynllun mewnol ar ddyddiad y trosglwyddo, ac mae'r mater hwn ar hyn o bryd dan ystyriaeth gyda USS. Mae'r arwyddion cyntaf yn awgrymu y byddai angen £0.87m.

ALUN THOMAS
TRYSORYDD

DATGANIAD LLYWODRAETH GORFFORAETHOL 2003 - 2004

Mae Prifysgol Cymru wedi ei hymrwymo i arddangos yr ymarfer gorau ym mhob agwedd ar lywodraeth gorfforaethol. Mae'r crynodeb hwn yn disgrifio sut y mae'r Brifysgol wedi defnyddio'r egwyddorion a bennir yn Adran 1 y Cod Cyfun ar Lywodraeth Gorfforaethol a gyhoeddwyd gan Gyfnewidfa Stoc Llundain ym mis Mehefin 1998. Ei ddiben yw helpu darlennydd y datganiadau ariannol i ddeall sut y defnyddiwyd yr egwyddorion.

Cyngor y Brifysgol sy'n gyfrifol am system o reolaeth fewnol y Brifysgol ac am adolygu ei heffeithiolrwydd. Bwriedir i'r cyfryw system reoli, yn hytrach na dileu, y risg o fethu â chyflawni amcanion busnes, ac ni all gynnig ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd absoliwt, yn erbyn camddatganiad o bwys neu golled.

Mae Cyngor y Brifysgol o'r farn bod proses barhaus ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau arwyddocaol y Brifysgol, y bu hon yn ei lle am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2004 a than ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, fod Cyngor y Brifysgol yn ei hadolygu'n rheolaidd a'i bod yn cydymffurfio â'r cyfarwyddyd rheoli mewnol ar gyfer cyfarwyddwyr y Cod Cyfun fel y'i diwygiwyd gan Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain Fawr.

Cyfarfu Cyngor y Brifysgol bedair gwaith yn y deuddeng mis hyd at 31 Gorffennaf 2004. Mae iddo sawl pwyllgor, gan gynnwys Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor Enwebiadau, Pwyllgor Cydnabyddiaeth, a Phwyllgor Archwilio. Mae'r holl Bwyllgorau hyn wedi eu cyfansoddi'n ffurfiol ac mae iddynt gylch gwaith sy'n darparu am i'r mwyafrif o'u haelodau penodedig fod yn aelodau lleyg o'r Cyngor. Adroddir ar benderfyniadau ac argymhellion y Pwyllgorau hyn i'r Cyngor. Hefyd mae i'r Cyngor Grŵp Rheoli Risgiau sydd wedi ei gyfansoddi'n ffurfiol ac iddo gylch gwaith sy'n darparu, *inter alia*, am iddo gyflwyno adroddiadau a chynghori i'r Cyngor ar bolisi rheoli risgiau'r Brifysgol o leiaf ddwywaith bob blwyddyn.

Mae gan Gyngor y Brifysgol bump a deugain o aelodau, y mwyafrif ohonynt yn aelodau lleyg. Mewn adlewyrchiad o'r ffaith fod y Brifysgol yn gorff ffederal, ag iddi wyth Sefydliad Cyfansoddol yn 2003/04, mae aelodau ei Chyngor yn cynnwys Pennaeth ac un cynrychiolydd lleyg o gyrff llywodraethu pob un o'r Sefydliadau Cyfansoddol. Mae'r aelodau penodedig eraill yn cynnwys cynrychiolwyr o Lys a Bwrdd Academaidd y Brifysgol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Cyfrin Gyngor, a staff a myfyrwyr y Brifysgol. Mae tri o'r pump a deugain o aelodau yn aelodau cyfetholedig, lleyg. Pan fo bylchau yn codi yn y categori olaf hwn, mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn ystyried yr enwebiadau o dan y Statud berthnasol. Pan ddaw eu tymhorau yn eu swydd i ben, bydd yr holl aelodau penodedig a chyfetholedig lleyg yn gymwys i'w hailbenodi gan y cyrff perthnasol am hyd at dri thymor olynol.

Mae Cyngor y Brifysgol, mewn perthynas â'i gyfrifoldebau strategol a datblygiadol, yn cael argymhellion a chynghori oddi wrth y Pwyllgor Cyllid y mae ei aelodau yn cynnwys pum aelod lleyg a benodir gan y Cyngor o blith ei aelodau. Mae'r Pwyllgor, *inter alia*, hefyd yn argymhell i'r Cyngor gyllidebau refeniw a chyfalaf y Brifysgol ac yn monitro perfformiad mewn perthynas â chyllidebau cymeradwyedig.

Mae'r Cyngor yn cael cyngor oddi wrth y Bwrdd Academaidd a Bwrdd yr Is-Gangellorion ar faterion academaidd sy'n syrthio o fewn maes sylw'r Brifysgol.

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth sy'n adolygu cyflog y staff hynaf oll, gan gynnwys yr Is-Ganghellor Hŷn ac yn cynghori'r Cyngor arnynt. Y Pwyllgor Staffio sy'n cynghori'r Cyngor ar yr holl faterion staffio eraill.

DATGANIAD LLYWODRAETH GORFFORAETHOL - Parhad 2003 - 2004

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cwrdd o leiaf deirgwaith y flwyddyn, gydag archwilyr allanol a mewnol y Brifysgol yn bresennol. Mae'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella systemau rheolaeth fewnol y Brifysgol ac atebion y rheolwyr a'r cynlluniau gweithredu. Mae hefyd yn cael adroddiadau oddi wrth, *inter alia*, Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, fel y mae'r rhain yn effeithio ar fusnes y Brifysgol, ac mae'n ystyried yr adroddiadau hyn ac yn monitro'r ymlyniad wrth y gofynion rheolaethol. Er bod y gweithredwyr hyn yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio yn ôl yr angen, nid ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor. Gall y Pwyllgor gwrdd â'r Archwilyr Allanol a / neu Fewnol ar eu pennau eu hunain, am drafodaethau annibynnol. Yn yr un modd, mae gan y Pwyllgor y pŵer i ofyn am unrhyw wybodaeth berthnasol y mae arno ei hangen oddi wrth gyflogedigion y Brifysgol, i gael y cyfryw gyngor annibynnol proffesiynol y mae'n credu ei fod yn angenrheidiol ac i sicrhau bod pobl sydd â'r profiad a'r arbenigedd perthnasol yn mynychu os yw'n credu bod angen hyn, hyd yn oed os nad ydynt yn aelodau.

Aelodau Grŵp Rheoli Risgiau'r Brifysgol yw rheolwyr hŷn y Brifysgol, ac fe'i llywyddir gan yr Is-Ganghellor Hŷn. Mae'r Grŵp yn gyfrifol am oruchwylio polisi rheoli risgiau'r Brifysgol, a phrif ddben y polisi hwnnw yw mabwysiadu'r ymarfer gorau wrth nodi, gwerthuso a rheoli mewn modd cost-effeithiol holl rychwant y risgiau a wynebir gan y Brifysgol. Mae hefyd yn cael adroddiadau oddi wrth Grŵp Cynghori ar Iechyd a Diogelwch, sy'n cynnwys argymhellion ynghylch sut i wella. Ar sail barhaus, mae'r Grŵp Rheoli Risgiau yn nodi, a'r Cyngor yn cael ac yn cymeradwyo, matrices risgiau a rheolaeth sy'n cwmpasu gweithrediadau'r Brifysgol. Mae'r Grŵp yn nodi unrhyw fethiannau rheoli sylweddol a newidiadau mewn risgiau neu wendidau ac yn eu trafod yn yr adroddiadau, gan gynnwys yr effaith y maent wedi ei chael, y gallent fod wedi ei chael, neu y gallant ei chael, ar y Brifysgol, a'r camau a gymerir i ddileu neu i reoli'r rhain. Mae'n ofynnol i faterion rheoli risgiau gael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Grŵp a chael eu hystyried gan Gyngor y Brifysgol, ac, yn ogystal â hyn, i holl bwyllgorau cynghorol y Grŵp (gan gynnwys y Pwyllgor Cyllid, Archwilio, Cydnabyddiaeth, Staffio etc.) adolygu'n ffurfiol, o leiaf unwaith y flwyddyn, y materion rheoli risgiau hynny sy'n berthnasol i'w maes rheolaeth a chyfrifoldeb. Yn y modd hwn, caiff materion risgiau a rheolaeth eu gosod o fewn strwythurau gweithredol a phrosesau cynllunio'r Brifysgol a chânt eu hatgyfnerthu gan hyfforddiant ymwybyddiaeth am risgiau yn ôl yr angen. Yn ei gyfarfodydd ym mis Hydref a Rhagfyr 2004, gwnaeth Cyngor y Brifysgol yr asesiad blynyddol am y flwyddyn 2003/04 drwy ystyried dogfennau oddi wrth y Grŵp Rheoli Risgiau ac adroddiadau ar archwiliadau mewnol oddi wrth ei Bwyllgor Archwilio.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Brifysgol wedi gwneud cynnydd pellach yn ymwneud â gweithredu adroddiad mis Ebrill 2002 o adolygiad Syr David Williams o aelodaeth, strwythurau a *modus operandi*'r Brifysgol, yr adroddiad ar adolygiad annibynnol o weithgareddau dilysu a rhyddfrenio'r Brifysgol ac adroddiad ar yr adolygiad o lywodraethu Prifysgol Cymru. Mewn perthynas ag argymhellion Sir David Williams ynglŷn ag estyniad posibl o aelodaeth y Brifysgol a chydaddoldeb aelodaeth i aelod-sefydliadau presennol y Brifysgol, mae AAUC a Choleg y Brifysgol, Casnewydd erbyn hyn yn Sefydliadau Cyfansoddol dynodedig o Brifysgol Cymru ac ers 1 Awst 2004, mae pedwar sefydliad wedi ennill statws Darpar Sefydliadau Cyfansoddol. Hefyd o'r dyddiad hwnnw, rhoddodd Prifysgol Caerdydd a'r Coleg Meddygaeth y gorau i'w haelodaeth o'r Brifysgol. Symblyodd hyn y Brifysgol i gomisiynu adroddiad annibynnol ar rolau, swyddogaethau a strwythurau Prifysgol Cymru yn y dyfodol, a disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno i Gyngor y Brifysgol ym mis Mawrth 2005. Mae gofyn hefyd i'r Brifysgol ymateb yn ystod gwanwyn 2005 i adolygiad a wnaed yn 2004 gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar safonau academaidd y dyfarniadau a gynigir gan y Brifysgol.

CYFRIFOLDEBAU CYNGOR PRIFYSGOL CYMRU

Yn unol â Siarter Frenhinol y Brifysgol, mae Cyngor y Brifysgol yn gyfrifol am weinyddu a rheoli materion y Brifysgol, gan gynnwys sicrhau system effeithiol o reolaeth fewnol, ac mae gofyn iddo gyflwyno datganiadau ariannol archwiledig ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol priodol sydd, ar unrhyw adeg, yn datgelu sefyllfa ariannol y Brifysgol yn rhesymol o gywir ac yn ei alluogi i sicrhau y caiff y datganiadau ariannol eu llunio yn unol â Siarter Frenhinol y Brifysgol, y Datganiad o Ymarfer Cyfrifydda a Argymhellir ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch, a safonau cyfrifydda perthnasol eraill. Yn ogystal, ac o fewn telerau ac amodau'r Memorandwm Ariannol y cytunwyd arno rhwng Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor y Brifysgol, mae gofyn i'r Cyngor, drwy ddeiliad dynodedig ei swydd, lunio datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol gan roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Brifysgol ac o'r gwarged neu'r diffyg, a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn honno.

Wrth beri i'r datganiadau ariannol gael eu llunio, rhaid i'r Cyngor sicrhau:

- y dewisir polisiau cyfrifydda addas ac y cânt eu harfer yn gyson;
- y ffurfir barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn bwylllog;
- bod y safonau cyfrifydda cymwys wedi eu dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau o bwys a ddatgelir ac a esbennir yn y datganiadau ariannol;
- y llunnir datganiadau ariannol ar sail y busnes byw onid yw'n amhriodol tybio y bydd y Brifysgol yn parhau i weithredu. Mae'r Cyngor yn fodlon bod gan y Brifysgol adnoddau digonol i barhau i weithredu am y dyfodol rhagweladwy; am y rheswm hwn mae sail y busnes byw yn parhau i gael ei mabwysiadu wrth lunio'r datganiadau ariannol.

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhesymol:

- i sicrhau na ddefnyddir cyllid oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ond at y dibenion y cafodd ei roi ar eu cyfer ac yn unol â'r Memorandwm Ariannol â'r Cyngor Cyllido ac unrhyw amodau eraill y gall y Cyngor Cyllido eu pennu o bryd i'w gilydd;
- i sicrhau bod cyfyngiadau ariannol a rheolaethol priodol ar waith i ddiogelu cronfeydd arian cyhoeddus a chronfeydd o ffynonellau eraill;
- i ddiogelu asedion y Brifysgol ac atal a chanfod twyll;
- i sicrhau rheoli adnoddau a gwariant y Brifysgol yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL CYMRU

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Gyngor Prifysgol Cymru

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Cymru ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2004 sy'n cwmpasu'r Cyfrif Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian, Datganiad yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu llunio o dan y confensiwn cost hanesyddol (fel y'i diwygiwyd drwy ailbrisio rhai asedion gosodedig) ac yn unol â'r polisiau cyfrifydda sydd i'w gweld ar dudalennau 10 i 13.

Priod Gyfrifoldebau Cyngor ac Archwilwyr y Brifysgol

Fel y disgrifir yn natganiad cyfrifoldebau Cyngor Prifysgol Cymru, mae Cyngor Prifysgol Cymru yn gyfrifol am lunio'r datganiadau ariannol yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, y Datganiad o Ymarfer a Argymhellir - Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch, cyfraith gymwys a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol a Safonau Archwilior Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Ymarferion Archwilio. Paratowyd yr adroddiad hwn, gan gynnwys y farn a fynegir ynddo, ar gyfer Cyngor Prifysgol Cymru ac ar ei gyfer ef yn unig, ac at ddim diben arall. Nid ydym, drwy roi'r farn hon, yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall neu i unrhyw berson arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo/iddi neu i law pwy bynnag y daw, oni bai ein bod wedi cytuno drwy ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

Yr ydym yn adrodd ein barn i chi ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg a ph'un a ydynt wedi eu llunio'n briodol yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir - Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch. Yr ydym hefyd yn adrodd i chi p'un a gafodd yr arian a wariwyd o grantiau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a chronfeydd eraill o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan Brifysgol Cymru at ddibenion penodol, yn ein barn ni, ym mhob modd o bwys, ei ddefnyddio'n briodol at y dibenion hynny ac, os yw'n briodol, a gafodd ei reoli yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol a ph'un a ddefnyddiwyd yr incwm, yn ein barn ni, ym mhob modd o bwys, yn unol â'r memorandwm ariannol â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Yr ydym hefyd yn adrodd i chi, yn ein barn ni, os nad yw adroddiad Cyngor Prifysgol Cymru yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw Prifysgol Cymru wedi cadw cofnodion cyfrifydda priodol, os nad yw'r cofnodion cyfrifydda yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol ac os nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau y mae arnom eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

Yr ydym yn darllen adroddiad Trysorydd Prifysgol Cymru a'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol ac yr ydym yn ystyried y goblygiadau ar gyfer ein hadroddiad os byddwn yn dod i wybod am unrhyw gamddatganiad ynddo.

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL CYMRU - Parhad

Sail Barn yr Archwilwyr

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio a gyhoeddir gan y Bwrdd Ymarferion Archwilio a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae archwiliad yn cynnwys astudio, ar sylfaen brawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesu'r amcangyfrifon a'r barnau o bwys a wnaed gan Gyngor Prifysgol Cymru wrth lunio'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifydda yn gweddu i amgylchiadau Prifysgol Cymru, a gymhwysir hwy'n gyson ac a ddatgelir hwy'n ddigonol.

Cynlluniwyd a chyflawnwyd ein harchwiliad er mwyn i ni gael yr holl wybodaeth a phob esboniad yr oedd eu hangen, yn ein barn ni, i roi digon o dystiolaeth i ni deimlo'n rhesymol o sicr bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatganiadau o bwys, p'un a achoswyd hwy gan dwyll neu ryw afreoleidd-dra neu wall arall. Wrth ffurfio ein barn, gwerthuswyd gennym hefyd ddigonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd yr wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

Barn

Yn ein barn ni:

- a. mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Prifysgol Cymru ar 31 Gorffennaf 2004, ac o warged yr incwm dros y gwariant a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn a ddiweddodd bryd hynny, ac maent wedi eu llunio'n briodol yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Datganiad o Ymarferion a Argymhellir - Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch;
- b. ym mhob modd o bwys, mae incwm oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, grantiau a chronfeydd eraill o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan Brifysgol Cymru at ddibenion penodol wedi eu defnyddio'n briodol at y dibenion hynny y'u cafwyd ar eu cyfer yn unig ac, os yw'n briodol, wedi eu rheoli i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol;
- c. ym mhob modd o bwys, cafodd yr incwm ei ddefnyddio yn unol â Siarter a Statudau Prifysgol Cymru a, lle bo'n briodol, â'r memorandwm ariannol a ddyddiwyd 1 Ionawr 1997 â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

DATGANIAD O'R PRIF BOLISIAU CYFRIFYDDA

1. Confensiwn Cyfrifydda

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu llunio o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i addaswyd drwy ailbrizio rhai buddsoddiadau asedau gosodedig ac asedau gwaddol, ac yn unol â'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2003 a'r Safonau Cyfrifyddu sy'n gymwys. Maent yn cydymffurfio hefyd â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ym mis Medi 2004 (cyfeirnod W04/59HE).

Nodir crynodeb o'r polisiau cyfrifydda pwysicaf isod, ynghyd ag esboniad o ble nad ydynt wedi eu gweithredu'n gyson.

2. Cydnabod Incwm yn y Cyfrif Incwm a Gwariant

Mae incwm i bwrpas penodol sydd wedi'i bennu gan y corff/person dyfarnu (mae enghreifftiau yn cynnwys grantiau clustnodedig gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), grantiau ymchwil a chontractau, rhoddion a gwasanaethau eraill) ond yn cael ei gynnwys i raddau'r gwariant gwirioneddol yn ystod y flwyddyn, ynghyd ag unrhyw gyfraniadau perthynol tuag at gostau gorbenion.

Mae pob incwm o Fuddsoddiadau Asedau Sefydlog, Asedau Gwaddol Cyffredinol ac Asedau Cyfredol yn cael eu cynnwys yn llawn yn y cyfrif incwm a gwariant. Mae incwm o fuddsoddiadau Gwaddol Penodol hefyd yn cael ei gredydu i'r cyfrif incwm a gwariant ar sail dderbyniadwy; fodd bynnag caiff unrhyw incwm a enillir dros ben yr hyn a gymhwysir i bwrpas penodol y gwaddol ei drosglwyddo o'r cyfrif incwm a gwariant i'r gwaddolion penodol dan sylw. Mae hyn yn newid yn y polisi cyfrifyddu a gyflwynwyd gan y SORP 2003. O dan y SORP blaenorol, roedd incwm o waddolion penodol ond yn cael ei gredydu i'r cyfrif Incwm a Gwariant i'r graddau yr oedd ei angen i gydweddu â gwariant o waddolion penodol. O ganlyniad i'r newid hwn mae'r cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer 2003 a'r nodiadau perthynol i'r cyfrifon wedi cael eu hailddatgan.

Mae grantiau cylchol o CCAUC neu gyrff eraill yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y maent yn dderbyniadwy ynddo.

3. Cynlluniau Pensiwn

Y ddau brif gynllun pensiwn ar gyfer staff y Brifysgol yw Cynllun Blwydd-dâl y Prifysgolion (USS) a Chynllun Blwydd-dâl Prifysgol Cymru (UWSS). Mae'r cynlluniau yn gynlluniau budd-daliadau diffiniedig a gaiff eu hariannu'n allanol ac sydd wedi eu contractio allan o'r Cynllun Pensiwn Gwladol yn ôl Enillion. Caiff y cronfeydd eu prisio bob tair blynedd gan actiwariaid annibynnol sy'n meddu ar y cymwysterau proffesiynol gan ddefnyddio'r dull unedau amcanestynedig, a phennir y cyfraddau cyfrannu sy'n daladwy gan yr ymddiriedolwyr yn unol â chyngor yr actiwariaid. Yn y blynyddoedd rhwng y prisiau, mae'r actiwariaid yn adolygu cynnydd y cynlluniau. Asesir costau pensiwn yn unol â chyngor yr actiwariaid, yn seiliedig ar y prisiau actiwariol diweddaraf o'r cynlluniau, a chyfrifir amdanynt ar sail codi cost darparu pensiynau dros y cyfnod y bydd y sefydliad yn elwa o wasanaethau'r gweithwyr cyflog.

DATGANIAD O'R PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDA - Parhad

Nid yw Safon Adrodd Ariannol 17: Budd-daliadau Ymddeol (FRS 17) wedi ei gweithredu'n llawn yn y datganiadau ariannol hyn, yn unol â'r trefniadau trosiannol a ganiateir o dan y safon a'r cyfarwyddyd adrodd a gyhoeddir gan Grŵp Safonau Cyfrifydda Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain Fawr (GCCPPF).

Yn achos Cynllun Blwydd-dâl y Prifysgolion, nid yw FRS 17 yn gymwys oherwydd nid yw'n bosibl pennu pa elfen o warged neu ddiffyg y Cynllun sy'n ymwneud â phob cyflogwr unigol sy'n cymryd rhan yn y Cynllun. Ni fydd y Brifysgol, felly, yn parhau i gydnabod ond cost y cyfraniadau sy'n daladwy yn y cyfnod cyfrifydda y maent yn ddyledus ynddo.

Yn achos Cynllun Blwydd-dâl Prifysgol Cymru, mae datgeliadau adrodd trosiannol FRS 17 a ganiateir wedi eu gwneud fel nodyn i'r datganiadau ariannol – gweler nodyn 22(b). Mae'r amcangyfrif sy'n ofynnol o sefyllfa ariannol y Cynllun wedi ei baratoi gan actwari annibynnol cymwys. Mae'r nodyn yn cynnwys manylion am sut y cyfrifir ased pensiwn net y Cynllun ynghyd â'r effaith y byddai hwn wedi ei chael ar fantolen y Brifysgol, ei chyfrif incwm a gwariant a'i datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig petai wedi ei gydnabod yn y datganiadau ariannol.

4. Arian Tramor

Cofnodir trafodaethau a gynhaliwyd mewn arian tramor ar y gyfradd gyfnewid a oedd mewn grym ar ddyddiadau'r trafodaethau. Trosir asedion a rhwymedigaethau ariannol a gynhaliwyd mewn arian tramor i arian Prydeinig naill ai ar y cyfraddau ar ddiwedd y flwyddyn neu, lle y bo blaen-gontractau arian tramor cysylltiedig, yn ôl cyfraddau'r contractau hynny. Caiff y gwahaniaethau cyfnewid sy'n deillio o hynny eu trin wrth benderfynu ar yr incwm a'r gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol.

5. Tir ac Adeiladau

Nodir Tir ac Adeiladau yn ôl eu cost, ac eithrio yn achos Gregynog, a nodir yn ôl gwerth profiant heb ychwanegiadau neu warediadau yn ôl eu cost neu ynghyd â hwy. Dibrisir adeiladau dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig hyd at 50 mlynedd ar y mwyaf.

Lle prynir adeiladau gyda chymorth grant penodol, er enghraifft oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru neu gyrff eraill, cânt eu cyfalafu a'u dibrisio fel y disgrifir uchod. Ymdrinnir â'r grantiau cysylltiedig fel grantiau cyfalaf gohiriedig ac fe'u rhyddheir i incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr adeiladau.

Gwneir adolygiad ynghylch amharu ar ased gosodedig os bydd digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn nodi na ellir hwyrach adfer y swm sy'n cludo'r ased gosodedig.

6. Offer

Caiff gwerth offer sy'n costio llai na £10,000 am bob eitem unigol neu grŵp o eitemau cysylltiedig ei ddileu ym flwyddyn eu prynu. Caiff yr holl offer eraill eu cyfalafu.

DATGANIAD O'R PRIF BOLISIAU CYFRIFYDDA - Parhad

Nodir offer a gyfalafwyd yn ôl eu cost ac fe'u dibrisir ar sail llinell-syth dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

Gosodiadau cyfrifiadurol o bwys ac offer ffôn	-	7 mlynedd
Cerbydau modur ac offer cyffredinol	-	4 blynedd
Offer argraffu atredol Litho	-	10 mlynedd
Liffitiau	-	15 mlynedd
Offer ar gyfer prosiectau ymchwil penodol		Oes y prosiect (3 blynedd fel rheol)

Lle y prynir offer gyda chymorth grantiau penodol, cânt eu cyfalafu a'u dibrisio fel a nodir uchod. Caiff y grant cysylltiedig ei drin fel grant a geir ymlaen llaw ac a ryddheir i incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr offer (cyfnod y grant mewn perthynas â phrosiectau ymchwil penodol).

7. Buddsoddiadau

Gan fod Buddsoddiadau Asedion Gwaddol a Buddsoddiadau Asedion Gosodedig yn fuddsoddiadau na ddelir mohonynt i'w sylweddoli ar unwaith, fe'u cynhwysir yn y Fantolen yn ôl eu gwerth marchnad. Cynhwysir Buddsoddiadau Asedion Cyfredol ar yr isaf o'u cost a'u gwerth sylweddoladwy net.

8. Stociau

Prisir y stociau o lyfrau a ddelir gan Wasg y Brifysgol ar ben isaf eu cost a'u gwerth sylweddoladwy net; dibrisir y llyfrau mewn stoc dros gyfnod o 2 flynedd, 3.5 blynedd neu 5 mlynedd o ddyddiad eu cyhoeddi fel a bennir gan Fwrdd Rheoli'r Wasg pan gomisiynir y teitlau.

Caiff stociau o eitemau treuliadwy masnachol yng Ngregynog hefyd eu prisio ar yr isaf o'u cost a'u gwerth sylweddoladwy net.

9. Llifoedd Arian ac Adnoddau Hylifol

Mae llifoedd arian yn cwmpasu cynnydd neu ostyngiadau mewn arian. Mae arian yn cynnwys arian mewn llaw, adneuon sy'n ad-daladwy ar alwad a gorddrafftiau. Mae adneuon yn ad-daladwy ar alwad os ydynt yn ymarferol ar gael o fewn 24 awr heb gosb. Ni chynhwysir unrhyw fuddsoddiadau, er mor hylifol y byddont, fel arian.

Mae adnoddau hylifol yn cwmpasu asedion a ddelir fel stôr o werth sydd ar gael yn rhwydd. Maent yn cynnwys adneuon tymhorol, gwarannau llywodraeth a stoc benthyg a ddelir fel rhan o weithgareddau rheoli trysorfa'r Brifysgol. Nid ydynt yn cynnwys unrhyw gyfryw asedion a ddelir fel Buddsoddiadau Asedion Gwaddol.

DATGANIAD O'R PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDA - Parhad

10. Cynnal a Chadw Adeiladau

Yn unol â FRS12, o 1 Awst 1998 ymlaen, mae'r Brifysgol yn gosod costau cynnal a chadw cywirol tymor-hir a rheolaidd ar y cyfrif incwm a gwariant fel y'u tynnir. Mae gwariant mawr sy'n gwella buddion economaidd yr adeiladau mewn unrhyw fodd yn cael ei gyfalafu yn unol â FRS 15.

11. Statws Trethiannol

Mae'r Brifysgol yn elusen a eithriwyd o fewn ystyr Atodlen 2 Deddf Elusennau 1993, ac, fel y cyfryw, mae'n elusen o fewn ystyr Adran 506(1) Deddf Trethi Incwm a Chorfforaethol 1988. Yn unol â hynny, mae'r Brifysgol wedi ei heithrio, o bosibl, rhag cael ei threthu mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a geir o fewn y categorïau a ddaw o dan Adran 505 Deddf Trethi Incwm a Chorfforaethol 1988 neu Adran 256 Deddf Trethu Enillion Taladwy 1992 i'r graddau y cymhwysir yr incwm hwnnw neu'r enillion hynny at ddibenion elusennol yn unig. Nid eithrir y Brifysgol yn yr un modd mewn perthynas â Threth ar Werth.

12. Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan fydd gan y Brifysgol ymrwymiad cyfreithiol presennol neu adeiladol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol; mae'n debygol y bydd yn ofynnol trosglwyddo budd economaidd er mwyn ad-dalu'r ymrwymiad, a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm yr ymrwymiad.

**CYFRIF INCWM A GWARIANT
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2004**

	Nodyn	2004 £	2003 £ (fel yr ailddatganwyd)
INCWM			
Grantiau'r Cyngor Cyllido	1	638,909	627,983
Ffioedd Academaidd a Grantiau Cymorth	2	123,225	120,996
Grantiau a Chontractau Ymchwil		272,618	249,093
Incwm Gweithredu Arall	3	5,880,222	5,224,421
Incwm Gwaddol ac Incwm o Fuddsoddiadau	4	862,127	875,772
		7,777,101	7,098,265
CYFANSWM YR INCWM			
GWARIANT			
Costau Staff	5	3,217,130	3,094,672
Treuliau Gweithredu Eraill	6	3,621,464	3,658,382
Dibrisiant	8	114,385	146,687
		6,952,979	6,899,741
CYFANSWM Y GWARIANT			
Gwaged ar ôl Dibrisio'r Asedion Gosodedig ar Gost		824,122	198,524
Elw adeg Cael Gwaged ag Asedion Gosodedig		-	347,421
Gwaged ar y Gweithrediadau sy'n Parhau ar ôl Dibrisio'r Asedion ar Gost a Chael Gwaged ag Asedion		824,122	545,945
Trosglwyddo Incwm Gwaddol Penodol nas Gwariwyd i Gronfeydd Gwaddol Penodol	15	(88,983)	(111,182)
Gwaged am y Flwyddyn a Gadwyd o fewn y Cronfeydd Cyffredinol		735,139	434,763

Mae'r cyfrif Incwm a Gwariant yn ymwneud â gweithgareddau sy'n parhau.

Nodyn ar Wargedion a Diffygion Costau Hanesyddol

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng y gwaged incwm dros wariant a ddatgelir a fynegir uchod a'r hyn sy'n cyfateb i'w gost hanesyddol.

**DATGANIAD O GYFANSWM YR ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2004**

	Nodyn	2004 £	2003 £
Gwarged ar ôl Dibrisio Asedion yn ôl eu Cost a Threthu		824,122	545,945
Arbrisiant Buddsoddiadau Asedau Gwaddol	15	335,855	179,829
Gwaddoliadau Newydd	15	79,432	131,560
Arbrisiant Buddsoddiadau Asedau Sefydlog	17	127,285	44,171
CYFANSWM YR ENILLION CYDNABYDDEDIG SY'N YMWNEUD Â'R CYFNOD		1,366,694	901,505
CYSONI			
Cronfeydd a Gwaddoliadau Agoriadol		21,843,103	20,941,598
Cyfanswm yr Enillion Cydnabyddedig ar gyfer y Flwyddyn		1,366,694	901,505
CRONFEYDD A GWADDOLIADAU TERFYNOL		23,209,797	21,843,103

Y FANTOLEN AR 31 GORFFENNAF 2004

	Nodyn	2004 £	2003 £
Asedion Cyffwrddadwy	8	2,184,505	2,201,636
Buddsoddiadau	9	4,163,334	3,035,890
CYFANSWM ASEDU SEFYDLOG		6,347,839	5,237,526
BUDDSODDIADAU GWADDOL	10	12,488,705	11,984,435
Stociau	11	283,157	249,702
Dyledwyr	12	1,028,023	1,305,950
Adneuon Tymor-Byr	19	6,272,000	5,177,000
Arian yn y Banc ac mewn Llaw	19	158,253	647,828
CYFANSWM ASEDU CYFREDOL		7,741,433	7,380,480
Llai: Credydwyr - Symiau sydd i'w talu cyn pen blwyddyn	13	2,726,724	2,133,132
ASEDION CYFREDOL NET		5,014,709	5,247,348
CYFANSWM YR ASEDION LLAI'R RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL		23,851,253	22,469,309
ASEDION NET		23,851,253	22,469,309

Y FANTOLEN AR 31 GORFFENNAF 2004 - Parhad

	Nodyn	2004 £	2003 £
Cynrychiolir gan y canlynol:			
GRANTIAU CYFALAF GOHIRIEDIG	14	641,456	626,206
Gwaddolion Penodol		5,427,614	5,211,989
Gwaddolion Cyffredinol		7,061,091	6,772,446
CYFANSWM GWADDOLION	15	12,488,705	11,984,435
Cyfrif Incwm a Gwariant a Chronfeydd Eraill Wrth Gefn	16	9,413,117	8,677,978
Cronfa Adbrisio Wrth Gefn	17	1,307,975	1,180,690
CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN		10,721,092	9,858,668
CYFANSWM Y CRONFEYDD		23,851,253	22,469,309

Cymeradwywyd y Datganiadau Ariannol ar dudalennau 10 i 32 gan Gyngor y Brifysgol ar 14 Ionawr 2005, ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

A.J. CHAPMAN - Is-Ganghellor Hŷn

A. THOMAS - Trysorydd

L.E. WILLIAMS - Ysgrifennydd Cyffredinol

DATGANIAD LLIF ARIAN
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2004

	Nodyn	2004 £	2003 £
